# Nadolig plentyn yng Nghymru

gan Dylan Thomas

# Gwers Un

## Amcanion Dysgu

Erbyn diwedd y wers, byddaf:

- wedi trafod fy atgofion fy hun am y Nadolig;
- wedi ysgrifennu am yr atgof a ddewisais.

# Nadolig – beth am dy Nadolig di?

- Meddwl ~ Parau ~ Rhannu

Trafodwch beth yw ystyr y Nadolig i chi a gwnewch restr o 10 gair sy'n gysylltiedig â'r Nadolig.

Er enghraifft: anrhegion, craceri, ac ati.

- Trafodwch â phartner.

- Rhannwch y syniadau hyn â'r dosbarth.

# Disgrifio'r Nadolig

- Trafodaeth Ddosbarth:

Beth yw ansoddair?

- Tasg Unigol:

Gwnewch restr sy'n cynnwys o leiaf 10 **<u>ansoddair</u>** sy'n disgrifio eich Nadolig.

# Tasg ysgrifennu <u>Oer</u>

- Tasg y byddwch chi’n ei gwneud cyn inni drafod nodweddion ysgrifennu disgrifiadol yw tasg ysgrifennu oer.

- TASG: Ysgrifennwch ddisgrifiad byr o’r Nadolig fel rydych chi’n ei gofio. Cofiwch fod eich gwaith ysgrifennu mor fywiog a diddorol â phosibl.

# Gwers 2: Ysgrifennu Disgrifiadol

## Amcanion Dysgu

Erbyn diwedd y wers byddaf:

- yn deall nodweddion allweddol ysgrifennu disgrifiadol yn well;
- wedi anodi darn o ‘Nadolig Plentyn yng Nghymru’.

## Trafodaeth Ddosbarth:

- Beth yw prif nodweddion ysgrifennu disgrifiadol?

# Tasg Unigol

- Llenwch y tabl ar Daflen Waith 1

| Nodwedd | Diben |
| --- | --- |
| Ansoddeiriau | Yn cael eu disgrifio i ddisgrifio a chreu awyrgylch penodol. |
| Trosiad | |
| Cyffelybiaeth/Cymhariaeth | |
| Personoli | |
| Cyflythreniad | |
| Onomatopoeia | |
| Defnyddio’r pum synnwyr | |

# Tasg mewn parau

- Darllenwch drwy'r darn ar Daflen Waith 2;
- Nodwch unrhyw enghreifftiau o'r technegau yn y tabl sydd i'w gweld yn y darn.

Er enghraifft: cyffelybiaeth neu gymhariaeth yw "fel lleuad pendramwnwgl".

# Gwers 3

- Dywedodd Dylan Thomas fod dod o hyd i atgof am y Nadolig yn ei feddwl fel trochi eich dwylo yn yr eira a dwyn allan beth bynnag oedd yno.

- Ysgrifennwch eich hoff atgof neu eich atgof mwyaf cofiadwy am y Nadolig ar y cerdyn a roddodd eich athro ichi.

- Byddwch yn barod i rannu'r atgof hwn â'r dosbarth!

# Tasg Unigol

- Llenwch y bwrdd stori'n seiliedig ar yr atgof o'ch dewis. Gwnewch yn siŵr eich bod ystyried eich disgrifiadau'n ofalus.

# Gwers 4
# Amcanion Dysgu

Erbyn diwedd y wers byddaf:

- yn gallu deall delweddau a sut maen nhw'n cael eu defnyddio i greu disgrifiadau;
- yn gallu cymhwyso fy nealltwriaeth o'r termau 'trosiad' a 'cyffelybiaeth'/ 'cymhariaeth'.

Trosiad yw?

Cyffelybiaeth/cymhariaeth yw?

# CYFFELYBIAETH/CYMHARIAETH

Mae cyffelybiaeth neu gymhariaeth yn cymharu dau beth sydd ddim yn debyg. Mae'r geiriau 'fel' neu 'megis' yn cael eu defnyddio mewn cyffelybiaeth/ cymhariaeth.

Roedd yr eira'n syrthio **fel** plu colomen wen o'r awyr.







# TROSIAD

Mae trosiadau'n cymharu dau beth sydd ddim yn debyg drwy ddweud bod un peth **yn** rhywbeth arall.

Roedd **blanced o eira** dros y wlad.





# Tasg unigol: Taflen Waith 4

- Ar ôl darllen drwy'r darn, canolbwyntiwch ar y darn sydd mewn blwch yn y canol.

- Llenwch y tabl a nodwch a yw'r enghraifft yn drosiad neu'n gyffelybiaeth/gymhariaeth a thynnwch lun i gynrychioli'r ddelwedd sy'n cael ei defnyddio.

# Gwers 5

- Ysgrifennwch eich atgof Nadolig eto gan gofio’r nodweddion y mae Dylan Thomas yn eu defnyddio wrth ysgrifennu. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfeirio at y rhestr wirio.

- Gwnewch y dasg hunanasesu ar ôl ichi ysgrifennu eich disgrifiad.